Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

**Swydd ddisgrifiad Cynorthwyydd Bugeiliol CA 3/4**

**Cyfrifoldebau Rhagweithiol:**

- Meithrin perthynas bositif yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel a pharch gyda'r disgyblion.
- Ymyrryd yn gynnar er mwyn gwella / newid ymddygiad
- **Cysgodi disgyblion a dosbarthiadau** sy'n achosi problemau yn rheolaidd gan ddilyn amserlen wythnosol,
- **Cadw cysylltiad parhaus gyda rhieni'r** disgyblion hynny sy'n camymddwyn a / neu sy'n dangos gwelliant,
- **Cyfweld yn rheolaidd** gyda disgyblion sy'n amlygu problemau - cytuno ar dargedau personol
- **Gosod targedau** gwelliant
- Trafod a monitro **cynnydd yn erbyn targedau** personol
- Trefnu cyfnodau o "**amser cylch**"
- Datblygu canlyniadau ymddygiad creadigol ac effeithiol i gefnogi agenda 'gwella ymddygiad'
- Lleihau'r nifer o ddigwyddiadau ymddygiad ymysg disgyblion y grwpiau targed
- Lleihau cyfradd gwaharddiadau dros dro'r ysgol

**Cyfrifoldebau Adweithiol:**

- Bod ar alwad er mwyn casglu disgyblion yn dilyn ceisiadau gan athrawon.
- Datblygu perthnasoedd positif gyda disgyblion a bod ar gael i wrando a gweithredu ar eu pryderon mewn cydweithrediad a'r AD.
- Ymchwilio i ddigwyddiadau, a darparu gwybodaeth i Arweinwyr Dysgu o fewn yr un dydd ysgol,
- Yn dibynnu ar y digwyddiad, cysylltu â'r rhieni - a throsglwyddo gwybodaeth yn brydlon i AD
- Penderfynu ar gosb os yn berthnasol (trafod ar y cychwyn gyda'r AD er mwyn dod yn gyfarwydd â'r ystod o gosbau a ddefnyddir)
- Cefnogi yn gwarchod y Gilfach pan fod HP yn absennol neu ar alwadau eraill.

**Cefnogaeth i'r AD / Arweinydd yr Uned 'Gwella' er mwyn ehangu llwyddiant addysgol disgyblion yn eich CA**
**Cefnogaeth:**

- Cefnogi gwaith yr AD dysgu yn ddyddiol
- Cefnogi'r AD wrth fonitro data ymddygiad, presenoldeb clod a chynnydd disgyblion
- Cefnogi gwaith arweinydd y ganolfan Gwella o ran trefn a systemau effeithiol o apwyntiadau yn y ganolfan 'Gwella'.
- Cefnogi gweithgareddau a threfniadau'r ganolfan 'Gwella' yn ddyddiol.
- Delio yn effeithiol a medrus gyda gofynion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion wrth weithredu'n adferol ar bob achlysur.
- Cadw cofnodion manwl o gyfweliadau gyda disgyblion.
- Cofnodi effaith rhaglenni ymyrraeth er mwyn gallu monitro effeithiolrwydd y rhaglenni.

**Ymyraethau:**

- Mentora unigol ar gyfer disgyblion targed sydd ag AEYCh.
- Adnabod a gweithredu'r cynllun/iau ymyrraeth benodol ar gyfer disgyblion unigol.

- Gwirio a thracio Cynlluniau Ymddygiad Unigol disgyblion
- Datblygu bwydlen o gynlluniau ymyrryd (ar y cyd gyda'r AD / arweinydd yr Uned Gwella).
- Dyfal barhau gyda rhaglenni pendant fydd yn effeithiol yn newid ymddygiad disgyblion.

**Gwobrwyo:**

- Gweithredu cynlluniau gwobrwyo ar gyfer disgyblion targed er mwyn codi hyder a chymhelliant disgyblion i ddysgu.
- Datblygu cynlluniau gwobrwyo ar gyfer disgyblion unigol.
- Sicrhau ymwybyddiaeth rhieni o'r cynlluniau gwobrwyo a'u cynnwys yn y prosesau.

**Ymglymiad rhieni**

- Meithrin perthynas bositif yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel a pharch gyda'r rhieni.
- Sicrhau ymglymiad rhieni'r disgyblion targed sydd ag AEYCh i'r cynlluniau gwella.
- Cyfarfodydd yn gyson gyda rhieni'r grwpiau targed er mwyn cynnig adborth cyfnodol.

**Presenoldeb:**

- Cymryd cyfrifoldeb am fonitro presenoldeb dyddiol eich CA / ysgol.
- Cysylltu gyda rhieni am unrhyw absenoldeb disgyblion yn eich CA.
- Cymryd cyfrifoldeb am wella presenoldeb y grŵp targed presenoldeb.
- Cymryd cyfrifoldeb am wella prydlondeb grŵp targed prydlondeb.
- Cymryd cyfrifoldeb am brydlondeb boreol disgyblion - gwirio ac ymyrryd
- Sicrhau ymyrraeth gynnar 'yr awr aur' drwy wirio presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yma cyn 9:30 a chysylltu gyda rhieni / gwarchodwyr
- Cynllunio strategaethau ymyrraeth creadigol ac effeithiol i wella'r agweddau yma.
- Cynnwys y rhieni yn y prosesau yma trwy ffonio rhieni, trefnu cyfarfodydd a llythyru adref
- Profi gwelliant yn yr agweddau yma wrth olrhain unrhyw gynnydd gan ddisgyblion y grwp targed.
- Cefnogi Arweinydd Bugeiliol yr ysgol gydag unrhyw faterion presenoldeb.

**Gweithredu Rhaglenni ymyrraeth:**

- Cydweithio gydag asiantaethau allanol yn ôl gofynion yr AD ac adrodd gwybodaeth nol i'r AD yn brydlon
- Mynychu hyfforddiant addas ar gyfer y swydd a gweithredu'r strategaethau perthnasol e.e. Arferion Adferol, dull o feddwl positif (Growth Mindset), Iechyd Meddwl, Rheoli Ymddygiad
- Hyfforddi disgyblion unigol a/neu grwpiau o ddisgyblion mewn rhai o'r meysydd canlynol: Gwella hunan ddelwedd, Mentor adferol, Gwella hunan hyder, Rheoli tymer, Cynllun datblygu cymhelliant, Cynllun datblygu uchelgais